

Addysg Uwch a Phensiynau

Cynlluniau Pensiwn sefydliadau Addysg Uwch

1. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn aelodau o amrywiaeth o gynlluniau pensiwn, llawer ohonynt ar draws y DU gyfan, sydd wedi eu dylunio i ddarparu pensiynau i staff pan fyddant yn ymddeol. Ariennir y cynlluniau hyn gan gyfraniadau a wneir gan y cyflogai a'r cyflogwr ond ceir gwahaniaethau o ran natur y cynlluniau. Ceir amrywiadau o ran y *math* o fuddion pensiwn y mae staff sydd wedi ymddeol yn eu derbyn, a'r *ffordd* y caiff y cynlluniau eu rheoli, eu hariannu a sut y rhoddir cyfrif amdanynt yn natganiadau ariannol y sefydliadau addysg uwch.
2. Disgrifir y ddau brif fath o gynllun pensiwn fel 'buddion wedi'u diffinio' a 'chyfraniad wedi'i ddiffinio'. Disgrifir cynlluniau buddion wedi'u diffinio ymhellach hefyd fel cynlluniau a ariennir neu na ariennir. Mae gan gynlluniau a ariennir gronfeydd ar wahân a reolir gan ymddiriedolwyr (ar wahân i'r cyflogwr). Maent yn goruchwyllo'r buddsoddiad o gyfraniadau a dderbynnir gan gyflogeion a chyflogwyr gyda golwg ar sicrhau'r enillion mwyaf posibl a enillir gan arian yn y cynllun er mwyn talu costau taliadau pensiwn y cyflogeion sydd wedi ymddeol. Nid oes gan gynlluniau sydd heb eu hariannu gronfa annibynnol ar gyfer derbyn cyfraniadau ac i dalu pensiynau i aelodau sydd wedi ymddeol ohoni.
3. Gyda **chynlluniau buddion wedi'u diffinio**, mae cyflogeion a'u cyflogwyr yn cyfrannu at y cynllun. Mae'r cyflogai yn gwybod pa pensiwn y bydd yn ei gael (o ran unrhyw gyfandaliad ar ôl ymddeol a phensiwn misol) *ni waeth* beth y mae wedi ei dalu i mewn i'r cynllun. Caiff ei fuddion eu cyfrifo ar sail y canlynol fel rheol:
 - ei gyflog ar adeg ei ymddeoliad, neu efallai dros 12 mis terfynol ei gyflogaeth; neu ei gyflog cyfartalog dros gyfnod hwy; a
 - nifer y blynyddoedd y mae wedi gweithio a chyfrannu at y cynllun pensiwn.
4. Gyda **chynlluniau cyfraniad wedi'i ddiffinio**, mae cyflogeion yn gwneud cyfraniad at y cynllun, a ategir gan eu cyflogwr fel rheol. Pan fyddant yn ymddeol, cyfrifir gwerth y cyfraniadau dros y blynyddoedd, yn ogystal ag unrhyw enillion buddsoddi y mae'r cyfraniadau wedi eu gwneud, a chaiff y pensiwn misol ei bennu gan werth buddsoddi'r swm hwnnw, ac eithrio unrhyw swm a gymerir fel cyfandaliad.
5. Mae cynlluniau buddion wedi'u diffinio yn risg uwch i gyflogwyr yn nodweddiadol, gan fod eu cynaliadwyedd ariannol yn dibynnu ar sicrhau bod gan y cynllun ddigon o incwm ac asedau i fodloni'r rhwymedigaeth bresennol ac a ragwelir yn y dyfodol ar gyfer taliadau pensiwn i gyflogeion sydd wedi ymddeol. I wneud yn siŵr bod cynlluniau o'r fath ar y trywydd iawn i ennill incwm digonol i fodloni'r rhwymedigaethau hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr drefnu prisiad ffurfiol, a elwir yn brisiad actiwaraid, o'r cynllun, unwaith bob tair blynedd fel rheol. Mae hwn yn un o ofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau statudol a all hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr gynyddu lefelau cyfraniadau at y cynllun os bydd gwerth cyllid y cynllun yn annigonol i fodloni rhwymedigaethau'r cynllun. Mae prisiadau actiwaraid yn seiliedig ar amrywiaeth o dybiaethau gan gynnwys yr enillion a ragwelir ar fuddsoddiad, incwm o gyfraniadau a chyfraddau

marwolaethau'r rhai sy'n derbyn pensiwn. Mae prisiadau cynlluniau yn sensitif iawn i newidiadau i'r tybiaethau hyn.

6. Nodir y prif gynlluniau pensiwn y mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn aelodau ohonynt yn y tabl isod.

	Buddion wedi'u Diffinio	Cyfraniad wedi'i Ddiffinio
Wedi'u hariannu	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion • Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau mewnol 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol • Cynlluniau mewnol
Heb eu hariannu	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Pensiwn Athrawon • Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 	

7. Mae datganiadau ariannol pob sefydliad addysg uwch yn cynnig rhagor o fanylion am ei gynlluniau pensiwn.
8. Mae'r ffordd y mae cynlluniau pensiwn yn sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i dalu costau pensiynau ar gyfer aelodau'r cynllun sydd wedi ymddeol yn amrywio. Caiff cynlluniau wedi'u hariannu eu rhedeg gan ymddiriedolwyr sy'n goruchwyllo buddsoddiad cyfraniadau pensiwn gyda'r nod o sicrhau'r enillion mwyaf posibl a enillir gan yr arian yn y gronfa. Nid oes gan gynlluniau heb eu hariannu gronfa annibynnol ac maent yn cynnwys cynlluniau Llywodraeth fel y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Pensiwn y GIG. Mae cyflogwyr a chyflogeion yn talu eu cyfraniadau pensiwn yn uniongyrchol i'r trysorlys, a thelir pensiynau yn uniongyrchol gan y trysorlys wedyn.
9. Ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y ffordd y mae aelod sefydliadau yn rhoi cyfrif am gostau cynlluniau buddion wedi'u diffinio, cyfraniad wedi'i ddiffinio, wedi'u hariannu a heb eu hariannu, a gwahaniaethau yn y ffordd y cyflwynir y cynlluniau yn natganiadau ariannol aelodau cynllun. Mae'r holl amrywiadau hyn rhwng cynlluniau yn golygu nad yw goblygiadau ariannol pensiynau ar gyfer aelodau cynllun yn cael eu cyflwyno ar sail gyson a chymaradwy ar gyfer pob cynllun yn eu datganiadau ariannol.

Heriau Presennol

10. Mae'r swm o arian y mae'n ofynnol ei dalu i mewn i gynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio, fel cyfraniadau misol gan gyflogeion a chyflogwyr yn seiliedig ar ganran o gyflog pensiynadwy fel rheol, yn newid o dro i dro o ganlyniad i brisiad actiwaraid y cynlluniau. Mae'n bosibl i'r prisiad ddod i'r casgliad bod gan gynllun ddigon o asedau i dalu ei rwymedigaethau ac yn sgil hynny arwain at naill ai dim newid neu ostyngiad i gyfraniadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, y profiad i'r rhan fwyaf o gynlluniau buddion

wedi'u diffinio yn y blynyddoedd diwethaf yw bod y prisiad yn dangos bod y cynlluniau mewn diffyg gyda mwy o rwymedigaethau nag asedau ac felly mae angen lefel uwch o gyfraniad i fodloni rhwymedigaethau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaethau wedi cynyddu yn rhannol oherwydd bod y boblogaeth yn byw yn hirach, felly mae gweithwyr sydd wedi ymddeol yn tynnu eu pensiwn am gyfnod hirach. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn addysg uwch angen lefelau cyfraniad uwch.

11. Mae **fforddiadwyedd hirdymor** cynlluniau pensiwn wedi'u diffinio yn heriol iawn ac mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr, yn enwedig yn y sector preifat, wedi cau eu cynlluniau buddion wedi'u diffinio i aelodau newydd, gan gynnig cynlluniau cyfraniad wedi'i ddiffinio yn eu lle i staff newydd. Nid yw sefydliadau addysg uwch yn bwriadu cau eu prif gynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio, a Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion yn fwyaf nodedig, ond mae angen iddynt reoli eu costau yn y dyfodol.
12. Roedd **prisiad actiwaraid** Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion ar 31 Mawrth 2017 yn dangos cyfanswm o £7.5 biliwn o ddiffyg o'i gymharu â diffyg o £5.3 biliwn yn dilyn y prisiad blaenorol yn 2014. Bu'n rhaid i sefydliadau addysg uwch wneud darpariaeth yn eu datganiadau ariannol ar gyfer 2018/19 ar gyfer cyfanswm gwerth eu cyfraniadau yn y dyfodol at y cynllun adfer diffyg a roddwyd ar waith gan ymddiriedolwyr Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion i leihau'r diffyg hwn. Mae hyn wedi arwain at nifer o sefydliadau yn adrodd diffyg ariannol yn y datganiad o incwm cynhwysfawr (y cyfeirir yn fwy cyffredinol ato fel y cyfrif incwm a gwariant) yn eu datganiadau ariannol.
13. Ni all sefydliadau addysg uwch unigol sy'n aelodau o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, a'u rheolwyr, bennu eu cyfraniadau eu hunain at y cynllun ar wahân. Ymddiriedolwyr Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion sy'n gorfod ymateb i ganlyniadau'r prisiad actiwaraid er mwyn bodloni Rheoleiddiwr Pensiynau'r DU, ac yn y pen draw mae'n rhaid iddynt gadarnhau'r cyfraniadau i'w talu i mewn i'r cynllun. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch sy'n aelodau o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion dalu cyfraniadau yn y dyfodol i leihau diffyg presennol y cynllun a hefyd i sicrhau bod cyfraniadau parhaus yn ddigonol i dalu am y cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun. Mae rhagor o fanylion am [brisiad Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion](#) a'r [ymateb](#) gan y corff cynrychioli cyflogwyr [UCEA](#) ar gael ar eu gwefannau.
14. Mae'r ffaith y bydd angen **cyfraniadau ychwanegol** gan sefydliadau addysg uwch ar gyfer eu gwahanol gynlluniau pensiwn yn arwain at oblygiadau i'w datganiadau ariannol. Ar gyfer cynllunio buddion wedi'u diffinio heb eu hariannu, bydd y lefelau cynyddol hyn o gyfraniadau yn dangos fel gwariant ychwanegol bob blwyddyn yn y dyfodol rhagweladwy, hyd nes i brisiad actiwaraid yn y dyfodol ddod i'r casgliad y gellir lleihau lefel cyfraniadau. Mae hyn yn golygu y bydd sefydliadau addysg uwch yn wynebu'r her o gynhyrchu incwm ychwanegol digonol i dalu'r costau pensiwn ychwanegol hyn bob blwyddyn, yn ogystal â chynnydd chwyddiant blynyddol yr holl gostau eraill y mae'n rhaid iddynt eu talu.
15. Ar gyfer cynlluniau buddion wedi'u diffinio a ariennir, fel Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), yn ogystal â gorfod talu **cyfraniadau pensiynau cynyddol** yn y blynyddoedd i ddod, mae hefyd yn ofynnol i sefydliadau addysg uwch roi cyfrif am eu cyfran o ddiffyg y cynllun trwy wneud darpariaeth ar gyfer y costau hyn yn y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth diffyg hon yn cynrychioli cyfanswm gwerth y cyfraniadau ychwanegol y byddant yn eu gwneud dros y ddeng mlynedd nesaf neu fwy i ddileu diffyg y cynllun, ac mae'r cyfanswm gwerth hwn wedi'i gynnwys fel gwariant gweithredu yn eu cyfrif incwm a gwariant 2018/19, er y byddant yn gwneud y taliadau yn flynyddol wedi eu gwasgaru ar draws y blynyddoedd i ddod mewn gwirionedd. Mae hon yn ffordd o gyflwyno costau pensiwn sy'n un o ofynion y Safonau Adrodd Ariannol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae sefydliadau addysg uwch yn paratoi eu datganiadau ariannol. Rhaid iddi gael ei chyflwyno yn ôl y rheolau cyfrifyddu i adlewyrchu'r ffaith bod ymrwymiad y sefydliadau AU i dalu'r cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol er mwyn dileu diffygion y cynllun yn ymrwymiad cytundebol. O ganlyniad, mae cyfran sefydliadau AU o ddiffyg y cynllun yn cael ei dangos yn llawn er mwyn lleihau eu cronfeydd i gydnabod yr ymrwymiad cytundebol. I'r nifer o'r sefydliadau addysg uwch sy'n aelodau o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), bydd hyn yn golygu bod y ddarpariaeth diffyg pensiwn hon yn mynd i arwain at eu datganiadau ariannol yn adrodd colledion sylweddol iawn yn y flwyddyn 2018/19, er y bydd yr effaith taliadau arian parod yn cael ei gwasgaru'n fwy cyfartal dros o leiaf y 10 mlynedd nesaf *mewn gwirionedd*. A dweud y gwir, nid oes gan yr addasiad pensiwn hwn ddim i'w wneud â pherfformiad gweithredol ac ni ddylid ei ddehongli felly.

16. Mae Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion wedi cael prisiad actiwaraid pellach yn ddiweddar ar 31 Mawrth 2018 o ganlyniad i'r anghydfod parhaus rhwng staff a chyflogwyr sefydliadau addysg uwch ynghylch y mater hwn, ac mae hwnnw'n dangos diffyg llawer llai. Er, yn anffodus, ni chadarnhawyd y prisiad actiwaraid hwn mewn pryd i gael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol 2018/19, bydd yn cael ei gynnwys yn 2019/20, pan fydd addasiad cadarnhaol yn cael ei wneud i'r ddarpariaeth diffyg pensiwn ac yn y cyfrif incwm a gwariant.

Felly, mae'r diffygion mawr a adroddwyd yn natganiadau ariannol 2018/19 nifer o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn bennaf oherwydd y **ffioedd pensiwn untro hyn i'r cyfrif incwm a gwariant ac nid ydynt yn adlewyrchu argyfwng yn eu perfformiad gweithredol**. Nid yw'r diffygion hynny yn adlewyrchiad o sefyllfa arian parod neu wario o ddydd i ddydd sefydliadau addysg uwch, ac nid ydynt yn golygu chwaith bod gwario wedi bod yn sylweddol uwch nag incwm. Maent yn adlewyrchiad o arferion cyfrifyddu i ddangos y cynnydd yn rhwymedigaethau pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion. Ymrwymadau yn y dyfodol yw'r rhwymedigaethau hyn i daliadau i leihau'r diffyg pensiynau, ac nid gwariant cyfredol.

Mwy

Canllaw BUFDG i gyllid addysg uwch

www.bufdg.ac.uk/understanding-finance/a-new-guide-to-understanding-he-finance/

13 Rhagfyr 2019